

Golwg Gyffredinol

Trosolwg o gynnal manyllion pleidiau

Mae'r ddogfen hon i bleidiau
cofrestredig sydd am wybod sut i
gynnal manyllion eu plaid.

Cynnwys:

[Cyflwyniad i nodau adnabod plaid](#)

[How identity marks are used](#)

[Ymhle y cofnodir nodau adnabod](#)

[Enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau](#)

Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n defnyddio '**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sanctiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar

www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

Trosolwg o gynnal manylion pleidiau

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon:

Pleidiau cofrestredig sydd eisiau gwybod sut i gynnal a gwneud newidiadau i'w manylion cofrestredig.

Mae'r ddogfen yn trafod:

- Cyflwyniad i fanylion pleidiau
- Eich cadarnhad cofrestriad blynyddol
- Gwneud newidiadau i'ch manylion cofrestredig
- Tynnu'ch plaid oddi ar y gofrestr

Dogfennau cysylltiedig:

- [Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol](#)
- [Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau](#)
- [Y broses o gofrestru](#)

2

Ffurflenni ar gyfer cynnal manylion pleidiau:

- [RP2 – Cais i addasu cofnod ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol](#)
- [RP2D – Cais i gofrestru disgrifiadau](#)
- [RP2JD – Cais i gofrestru disgrifiad ar y cyd](#)
- [RP3 – Hysbysiad o newid i fanylion cofrestredig plaid wleidyddol](#)
- [RP4 – Cais i gofrestru swyddog plaid olynol](#)
- [RP5 – Hysbysiad o benodiad neu derfyniad penodiad dirprwy drysorydd neu ddirprwy swyddog ymgyrchoedd](#)
- [RP6 – Datganiad o eithriad gan blaid wleidyddol gofrestredig](#)
- [RP7 – Tynnu datganiad o eithriad gan blaid wleidyddol gofrestredig yn ôl](#)
- [RP8 – Cadarnhad o fanylion cofrestredig plaid wleidyddol](#)
- [RP9 – Cais i ddadgofrestru plaid wleidyddol](#)

Gallwch hefyd gynnal a newid manylion eich plaid trwy droi at [Cyllid Etholiad Plaid \(PEF\) Ar-lein.](#)

Crynodeb

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynnal y gofrestr o bleidiau gwleidyddol.

Dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), rhaid i fanylion eich plaid fod yn gyfredol.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut i wneud hyn a ble gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

4

Cyflwyniad

Ni sy'n cadw cofrestr o'r holl bleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Dan PPERA, wedi i chi gofrestru mae'n rhaid i chi gadw manylion eich palid yn gyfredol. Cyfrifoldeb trysorydd eich plaid yw hyn.

Ar gyfer cyfrifoldebau trysorydd plaid, gweler:

- [Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid](#)

Sut ydyn ni'n cadw'n manylion yn gyfredol?

Gallwch wneud eich cais yn uniongyrchol trwy [Cyllid Etholiad Plaid \(PEF\) Ar-lein](#) neu trwy bostio'r ffurflen berthnasol atom.

Eich cadarnhad cofrestriad blynyddol

Pob blwyddyn rhaid i chi gadarnhau fod eich manylion cofrestredig yn gywir. Gelwir hyn eich cadarnhad cofrestriad blynyddol.

Rhaid i chi gadarnhau'ch manylion trwy [PEF Ar-lein](#) neu trwy gwblhau [ffurflen RP8](#) a'i dychwelyd atom ni.

Codir ffi cadarnhau flynyddol o £25.



Pryd fydd angen i chi gadarnhau?

Disgwylir i chi wneud eich cadarnhad cofrestriad blynyddol o fewn chwe mis o'r dyddiad pan fydd angen cyflwyno'ch cyfrifon blynyddol.

Fodd bynnag, i'w gwneud yn haws i chi, byddwn hefyd yn anfon nodyn atgoffa blynyddol atoch chi.

Beth sy'n digwydd os nad ydych yn cadarnhau'ch cofrestriad blynyddol?

Os nad ydych yn cadarnhau'ch cofrestriad blynyddol, bydd eich palid yn cael ei thynnu oddi ar y gofrestr. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi wneud cais o'r newydd i ailgofrestru'ch plaid a thalu'r ffi cofrestru £150 llawn.

Os oes newidiadau i'ch manylion cofrestredig

Os oes newidiadau i fanylion cofrestredig eich plaid rhwng rhoi cadarnhad cofrestru blynyddol, rhaid i chi roi gwybod i ni. Mae hyn yn rhan o'ch cyfrifoldebau dan PPERA.

Mewn ambell achos, efallai y bydd rhaid i chi dalu ffi weinyddol fechan i newid eich manylion. Gellir gweld unrhyw ffoedd ar [PEF Ar-lein](#) neu ar y ffurflen berthnasol.

Dylech ganiatáu 20 niwrnod gwaith i ni brosesu eich cais.

Newidiadau i'ch swyddogion cofrestredig

Os ydych am gyfnewid swyddog cofrestredig, newid manylion swyddog presennol (er enghraifft, os yw eu henw wedi newid), neu os ydych eisiau penodi swyddog ymgyrchoedd, rhaid i chi roi gwybod i ni o fewn 14 niwrnod o unrhyw newidiadau.

Gallwch wneud hyn trwy wneud y cais am newid trwy [PEF Ar-lein](#) neu trwy anfon [ffurflen RP4](#) wedi ei chwblhau atom a'i llofnodi gan:

- y trysorydd cofrestredig presennol
- arweinydd presennol y blaid
- y swyddog enwebu presennol
- y swyddog newydd (os yn berthnasol)

Os mai un unigolyn sy'n dal y tair swydd (fel trysorydd, arweinydd y blaid a swyddog enwebu), rhaid i chi gael eich swyddog atodol i lofnodi'r ffurflen.

Os, am ryw reswm, nad yw swyddog o'r blaid yn gallu llofnodi, gallant awdurdodi rhywun arall i lofnodi ar eu rhan. Rhaid i chi ddweud wrthym ar y ffurflen pam nad oedd y swyddog yn gallu llofnodi.

Os ydych yn penodi swyddog ymgyrchoedd, byddwch hefyd angen anfon copi diwygiedig o'ch cynllun ariannol atom i adlewyrchu'n newidiadau mewn cyfrifoldeb.



Pwysig

Dylech wirio'ch manylion cofrestredig i sicrhau fod y bobl gywir yn llofnodi'r ffurflen.

6

Newidiadau i enw'ch plaid, disgrifiadau neu arwyddluniau

Os ydych eisiau newid enw'ch plaid neu addasu neu ychwanegu arwyddluniau plaid, rhaid i chi wneud cais am newid trwy [PEF Ar-lein](#) neu gwblhau a dychwelyd [ffurflen RP2](#).

Os ydych eisiau addasu neu ychwanegu disgrifiadau plaid, bydd angen i chi wneud y cais am newid trwy [PEF Ar-lein](#) neu gwblhau a dychwelyd [ffurflen RP2D](#).

Dylid cael llofnod ar y ffurflen gan:

- y trysorydd cofrestredig presennol
- arweinydd presennol y plaid
- y swyddog enwebu presennol

Os mai un unigolyn sy'n dal y tair swydd (fel trysorydd, arweinydd y plaid a swyddog enwebu), rhaid i chi gael eich swyddog atodol i lofnodi'r ffurflen.

Os, am ryw reswm, nad yw swyddog o'r plaid yn gallu llofnodi, gallant awdurdodi rhywun arall i lofnodi ar eu rhan. Rhaid i chi ddweud wrthym ar y ffurflen pam nad oedd y swyddog yn gallu llofnodi.

Mae'r un rheolau a gofynion ag sy'n berthnasol i enwau pleidiau, disgrifiadau ac arwyddluniau wrth gofrestru yn berthnasol i unrhyw newidiadau yr hoffech eu gwneud. Dylech wirio'r rheolau hyn unwaith eto cyn i chi wneud unrhyw newidiadau.

Newidiadau i gyfeiriadau'ch plaid

Os byddwch yn newid cyfeiriadau cofrestredig, rhaid i chi roi gwybod i ni **o fewn 28 diwrnod**.

Rhaid i chi roi gwybod i ni os oes unrhyw newidiadau i:

- gyfeiriadau pencadlys cofrestredig neu uned gyfrifon eich plaid
- gyfeiriad swyddog plaid cofrestredig
- enw uned gyfrifo, neu enwau swyddogion cofrestredig uned gyfrifo

Gallwch wneud hyn trwy wneud y cais am newid trwy [PEF Ar-lein](#) neu trwy anfon [ffurflen RP3](#) wedi ei chwblhau a'i llofnodi gan drysorydd eich plaid atom.



Am ragor o wybodaeth, gweler:

- [Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau](#)



Newidiadau i niferoedd unedau cyfrifo

Os ydych eisiau newid y nifer o unedau cyfrifo sydd gennych, rhaid i chi addasu'r rhestr unedau cyfrifo yr ydych yn ei chynnwys yng nghynllun ariannol eich plaid. Dylai'ch trysorydd plaid cofrestredig ysgrifennu atom gyda'ch rhestr ddiwygiedig cyn gynted â phosibl.

Newid y rhannau o Brydain Fawr rydych wedi eich cofrestru ar eu cyfer

Os ydych wedi cofrestru ym Mhrydain Fawr ac eisiau newid y rhannau o'r gofrestr yr ydych yn ymddangos ynddynt (Cymru, Lloegr, Yr Alban), rhaid i chi wneud cais am newid trwy [PEF Ar-lein](#) neu gwblhau [ffurflen RP2](#).



Dylid cael llofnod ar y ffurflen gan:

- y trysorydd cofrestredig presennol
- arweinydd presennol y plaid
- y swyddog enwebu presennol

Os mai un unigolyn sy'n dal y tair swydd (fel trysorydd, arweinydd y plaid a swyddog enwebu), rhaid i chi gael eich swyddog atodol i lofnodi'r ffurflen.

Os, am ryw reswm, nad yw swyddog o'r plaid yn gallu llofnodi, gallant awdurdodi rhywun arall i lofnodi ar eu rhan. Rhaid i chi ddweud wrthym ar y ffurflen pam nad oedd y swyddog yn gallu llofnodi.


Ymgeiswyr yn sefyll mewn etholiad cyffredinol yn y Deyrnas Unedig

Os yw'ch plaid yn penderfynu na fydd yn sefyll ymgeiswyr yn etholiad cyffredinol nesaf y Deyrnas Unedig, dylech ofyn am y newid trwy [PEF Ar-lein](#) neu gwblhau ac anfon [ffurflen RP6](#) atom.



Mae hyn yn golygu y byddwch wedi'ch eithrio rhag anfon adroddiadau cyfraniadau a benthyciadau wythnosol atom yn ystod yr etholiad. Dylech wneud hyn unwaith eich bod yn siŵr na fydd gennych ymgeisydd yn sefyll yn yr etholiad.

Os byddwch yn newid eich meddwl ac yn penderfynu y bydd eich plaid yn sefyll ymgeiswyr yn yr etholiad cyffredinol nesaf, gallwch dynnu'r eithriad yn ôl trwy wneud cais newid trwy [PEF Ar-lein](#) neu gwblhau ac anfon [ffurflen RP7](#) atom.



8

Newidiadau i'ch penderfyniad i ymladd y rhanbarth cyfunol mewn etholiad Senedd Ewrop

Os ydych wedi datgan eich bod yn bwriadu ymladd 'Rhanbarth Cyfun y De Orllewin a Gibraltar' mewn etholiad Senedd Ewrop, ac nad ydych yn dal i fwriadu gwneud hynny, rhaid i chi roi gwybod i ni **o fewn 14 diwrnod** o'r penderfyniad hwn.

Dylech wneud cais am y newid trwy [PEF Ar-lein](#) neu gwblhau ac anfon [ffurflen RP3](#) atom wedi ei llofnodi gan drysorydd eich plaid.



Newid eich statws plaid fechan

Os ydych yn blaid fechan ac eisiau newid eich statws i blaid wleidyddol gofrestredig, ffoniwch ni.

Tynnu'ch plaid oddi ar y gofrestr

Os ydych chi eisiau dadgofrestru'ch plaid, dylech wneud y cais trwy [PEF Ar-lein](#) neu gwblhau ac anfon [ffurflen RP9](#) atom.

Dylid cael llofnod ar y ffurflen gan:

- y trysorydd cofrestredig presennol
- arweinydd presennol y plaid
- y swyddog enwebu presennol



Os mai un unigolyn sy'n dal y tair swydd (fel trysorydd, arweinydd y plaid a swyddog enwebu), rhaid i chi gael eich swyddog atodol i lofnodi'r ffurflen.

Os, am ryw reswm, nad yw swyddog o'r plaid yn gallu llofnodi, gallant awdurdodi rhywun arall i lofnodi ar eu rhan. Rhaid i chi ddweud wrthym ar y ffurflen pam nad oedd y swyddog yn gallu llofnodi.

Nid oes unrhyw ffi am ddileu'ch plaid o'r gofrestr. Byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau fod eich plaid wedi ei dadgofrestru.

Ymrwymiadau adrodd

Er bod eich plaid wedi ei dileu oddi ar y gofrestr, efallai y bydd gennych ymrwymiadau adrodd o hyd dan PPERA.

Os yw'ch incwm/gwariant dan £25,000

Os yw'ch incwm/gwariant dan £25,000, rhaid i chi gydymffurfio â pharhau gyda'ch ymrwymiadau adrodd hyd at ddiwedd y flwyddyn galendr.

Os yw'ch incwm/gwariant dros £25,000

Os yw'ch incwm/gwariant dros £25,000, rhaid i chi gydymffurfio â pharhau gyda'ch ymrwymiadau adrodd hyd at ddiwedd y flwyddyn galendr **ddilynol**.

Sut gallwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfennau cyfarwyddyd yr ydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein dewis llawn o gyfarwyddyd ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw hynny'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr:** 020 7271 0616
pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban:** 0131 225 0200
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru:** 029 2034 6800
infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon:** 028 9089 4020
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein cyfarwyddyd – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk.

10

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk